**Cylchlythyr Iechyd Cymru (2015) 053**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 12 Tachwedd 2015

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl:** Cyflwyno SNOMED CT fel Safon Gwybodaeth ar gyfer GIG Cymru

**Dyddiad dod i ben / Adolygu:** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**
Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG
Ymarferwyr meddygol cyffredinol
Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

**Angen gweithredu erbyn:**
Gweler isod

**Anfonir gan:** Peter Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd a Gofal Digidol

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**
Sally Greenway, Tîm Iechyd a Gofal Digidol, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

**Cyflwyno SNOMED CT fel Safon Gwybodaeth ar gyfer GIG Cymru**

Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae data o ymgynghoriadau cleifion â meddygon teulu wedi cael eu cofnodi gan systemau sy'n defnyddio termau clinigol y Codau Darllen. Hynny yw, data cleifion ar lefel cofnod clinigol. Ym maes gofal eilaidd, mae'r nodiadau clinigol yn cael eu troi'n ddata gweinyddol wrth i'r codwyr clinigol ddefnyddio codau dosbarthu. Ni fu terminoleg glinigol sy'n gallu cael ei defnyddio ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd.

Mae SNOMED CT wedi cael ei datblygu gan SNOMED (Cyfundrefn Enwi Meddygaeth) Coleg Patholegwyr America a Thermau Clinigol y DU (Codau Darllen) Fersiwn 3. Mae wedi ei dylunio i fod yn iaith fyd-eang ar gyfer termau iechyd a gofal. Er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei defnyddio'n fyd-eang, sefydlwyd y Sefydliad ar gyfer Datblygu Safonau Termau Iechyd Rhyngwladol (IHTSDO) yn 2007. Roedd y DU yn un o naw Aelod Siarter. Bellach mae bron deg ar hugain o aelodau ar draws Gogledd a De America, Ewrop, Llychlyn, Asia ac Awstralasia, ac mae'r aelodaeth yn tyfu'n raddol. Yr IHTSDO sy'n berchen ar SNOMED CT, ac ef hefyd sy'n ei weinyddu a'i ddatblygu ac yn dosbarthu'r craidd rhyngwladol i'r holl wledydd sy'n aelodau neu'n aelodau cyswllt.
http://www.ihtsdo.org/snomed-ct

Canolfan Derminoleg y DU (UKTC) yw cynrychiolydd y DU. Mae'n cyfrannu at y craidd rhyngwladol, yn ychwanegu cynnwys sy'n briodol i'r DU ac yn dosbarthu'r cynnyrch ledled y DU. Hefyd mae'r UKTC yn cynnal a dosbarthu'r Codau Darllen.

Ar gyfer GIG Lloegr mae'r penderfyniad wedi'i wneud i fabwysiadu SNOMED CT fel yr unig ffynhonnell o dermau clinigol. Mae wedi cyhoeddi cynllun ar gyfer y mabwysiadu sy'n cynnwys tynnu'r cymorth sy'n gysylltiedig â'r Codau Darllen.

Mae'r UKTC wedi dweud y bydd yn cyhoeddi Codau Darllen Fersiwn 2 am y tro olaf ym mis Ebrill 2016. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen ar gyfer tynnu'r cynnyrch yn Atodiad 1.

I hwyluso symud o Godau Darllen i SNOMED CT mewn systemau meddygon teulu, mae Bwrdd Rhaglen y DU ar gyfer SNOMED CT mewn Gofal Sylfaenol wedi cael ei sefydlu. Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn aelodau. Disgwylir i NWIS reoli'r rhaglen weithredu ar gyfer GIG Cymru.

Er nad oes rhaglen weithredu ar gyfer gofal acíwt a chymunedol, disgwylir i gydweithwyr ddefnyddio termau clinigol SNOMED CT mewn rhaglenni a phrosiectau priodol. Mae NWIS yn datblygu ei arbenigedd a'i swyddogaethau cefnogi yn y maes hwn ac yn ystyried defnyddio SNOMED CT mewn nifer o'u datblygiadau. Bydd yn cyhoeddi gwybodaeth benodol ynglŷn â'r datblygiadau hyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y polisi hwn, cysylltwch â Sally Greenway, Iechyd a Gofal Digidol, Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Email: DHSS-DigitalHealthandCareCentralMailbox@Wales.GSI.Gov.UK

Yn gywir,



Peter Jones
Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd a Gofal Digidol
Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Appendix 1

**UK Terminology Centre**

**For the attention of Senior Management and users of products detailed below:**

This briefing is intended to ensure that organisations are not dependant on products that are outdated or out of licence. Senior management who may wish to ensure due process is followed in their organisation. The detail in the briefing is primarily aimed at all those who manage or use systems which utilise the code schemes detailed.

This is to inform you of some important forthcoming dates in relation to products that you may have in use in your organisation. It is critical that any dependencies on these are addressed over the next 12 months. While the notification of these dates has been public for some considerable time, some systems are still using some of these products. As these products are often embedded in systems, it may be that you are not fully aware of your dependency on these. It is recommended that you obtain assurances from your supplier(s) that they have plans in place to migrate to a current standard (if not already) within the required timeframe.

For information the products on notice for withdrawal are:

- The Read Codes Version 2, often known as 'Read v2'. The last release of Read v2 will be the April 2016 release.
- Read v2 drugs, often known as the v2 DAAD. The last release of all DAAD products will be April 2016. After this time there will be no monthly updates and all content in biannual releases will be static (no updates).
- CTV3 drugs/DAAD has not been maintained since 2006 and should no longer be in use; there may be clinical safety risks if any organisation is still using these.
- SNOMED RT and previous versions known as SNOMED II, SNOMED v3, SNOMED v3.5. These have not been maintained for almost 10 years and are declared by the product owner (IHTSDO) to be clinically unsafe to use. On April 26th 2017 these will be out of license and any usage after that date could have legal implications as it will be unlicensed use. I am aware that a number of labs systems still use the antecedent versions of SNOMED but should be migrating to

SNOMED CT before April 26th 2017. More information can be found via the IHTSDO news page.

**Please note**. Any historical data recorded using one of these products can be retained under the license.

For information, the migration path is as given below:

- Anyone using DAAD or CTV3 drugs should be planning migration to the NHS dictionary of medicines and devices (dm+d) or the SNOMED CT UK drug extension (which is an added value transform of the dm+d)
- Anyone using the Read codes or an antecedent version of SNOMED should be planning migration to SNOMED CT.

If you have any questions in relation to this briefing, please contact information.standards@hscic.gov.uk